# Y CYNGOR

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 13:00 ar 16 MAI 2025, yn y Ganolfan Ddeialog, y Ganolfan Ddelweddu.**

Yn bresennol: Ms Meri Huws, Cadeirydd y Cyngor (Cadeirydd); yr Athro Jon Timmis, Is-Ganghellor; Dr Paul Bevan; yr Athro Sarah Davies; Ms Kate Eden; Ms Kylie Evans; yr Athro Simon Green; Ms Elain Gwynedd, Swyddog Diwylliant Cymreig a Llywydd UMCA; yr Athro Angela Hatton, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi); Dr Aloysius Igboekwu; Mr William Parker, Undeb Aberystwyth; Mr Dan Richards; Ms Rhuanedd Richards; Mr Arwel Thomas; Mr Mark Tweed; Ms Jane Usherwood; Ms Claire Vaughan; ac Yusuf Ibrahim.

Yn gweinyddu: Ms Julie Archer, Pennaeth Llywodraethu Dros Dro; Mr Simon Crick, Prif Swyddog Ariannol; Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mrs Sharon Lilley, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol; Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg; a Mr Steve Thomas, Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Chysylltiadau Allanol.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Mark Tweed a Kylie Evans.

**46. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD**

1. Croeso

   Croesawyd Will Parker i'w gyfarfod cyntaf fel cynrychiolydd myfyrwyr. Roedd Nanw Maelor a Millicent Hackett yn arsylwi'r cyfarfod a nhw fydd cynrychiolwyr y myfyrwyr ar gyfer y flwyddyn academaidd 2025/26.

2. Cydymdeimlad

   Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marwolaethau tri aelod presennol o’r staff: Yr Athro Björn Weiler, yr Athro Andrew Thomas, a Mr Jeremy Mabbutt. Cynhaliodd yr aelodau gyfnod byr o dawelwch er cof amdanynt.

3. Llongyfarchiadau

   1. Mae’r Athro Michael Woods wedi cyflawni un o'r anrhydeddau uchaf ym maes daearyddiaeth ar ôl cael ei wneud yn Gymrawd er Anrhydedd y Gymdeithas Ddaearyddol Frenhinol. Mae'n arbenigo mewn daearyddiaeth wledig a gwleidyddol a dyfarnwyd yr anrhydedd iddo i gydnabod ei wasanaeth i ddaearyddiaeth.

   2. Mae’r Athro Huw Jones, Dr Changjing Shang, Dr Arwyn Edwards, a'r Athro Jon Timmis wedi cael eu hethol yn Gymrodyr Cymdeithas Ddysgedig Cymru.

4. Adolygiad ar Effeithiolrwydd y Pwyllgor

   Er mwyn sicrhau datblygu parhaus, gofynnodd y Cadeirydd bod yr holiaduron a ddosbarthwyd yn ddiweddar i aelodau’r Cyngor a’r is-bwyllgorau yn cael eu llenwi.

5. Arfarniad Blynyddol

1. Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am gymryd rhan yn y broses, ac am eu cyfraniadau yn ystod y cyfarfodydd 1:1.

2. Pwysleisiwyd ei bod yn bwysig meithrin a chadw sgiliau aelodau'r Cyngor a'u dealltwriaeth o'r Brifysgol. Bydd yr arfarniadau yn llywio'r broses o adolygu'r sgiliau ar y Cyngor.

3. Roedd aelodau wedi gofyn a oedd rôl y Cyngor yn ddigon gweladwy, ac a oedd dealltwriaeth ddigonol ohoni ledled y Brifysgol.

4. Dywedodd aelodau ei bod hi'n bwysig sicrhau eglurder ynglŷn â rôl y gwahanol gategorïau o aelod ar y Cyngor, a ph'un a ydynt yn gynrychiolwyr ynteu'n ddirprwyon.

5. Holodd aelodau p'un a ydynt yn cyflawni eu rhwymedigaethau fel ymddiriedolwyr elusen. Cadarnhaodd y Cadeirydd y bydd sesiwn wybodaeth gan Shakespeare Martineau yn cael ei chynnal ym mis Medi. .

6. O'r cylch nesaf ymlaen, cynhelir arfarniadau blynyddol yn nhymor yr haf. Ar ddiwedd y flwyddyn academaidd bydd aelodau'n cael y cyfle i gael trafodaeth fer gyda'r Cadeirydd, os dymunant.

7. Bydd yr adroddiad a'r argymhellion yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Enwebiadau ym mis Mehefin.

**47. GWRTHDARO BUDDIANNAU**

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w hystyried yn ystod y cyfarfod.

**48. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2025 (COU2425-083).

**PENDERFYNWYD**

Cadarnhawyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r hyn a drafodwyd.

**49. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

DERBYNIWYD

Cofnod o'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU2425-084).

NODWYD

1. Nododd yr aelodau'r diweddariadau am y camau gweithredu agored a chaeëdig.

2. Mae'r aelodau'n ymwybodol o'r heriau yn ymwneud ag iechyd a diogelwch dros y 12 mis diwethaf, ac am waith sydd wedi'i wneud, ac sy'n parhau i gael ei wneud (26.2.3 a 26.2.4). Mae'r trafodaethau ynghylch datblygu fframwaith gwahanol yn mynd rhagddynt gyda'r adran Ystadau, yn ogystal â chytuno ar flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf. Bydd y diweddariadau hyn yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio, a'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, ym mis Mehefin, a rhoddir diweddariad llawn i'r Cyngor ym mis Gorffennaf.

3. Tynnwyd sylw'r aelodau at yr eitem gaeëdig ynglŷn â benthyca o'r cronfeydd gwaddol (10.3.5). Bydd y Pwyllgor Buddsoddi yn monitro'r ad-daliadau ac yn cydweithio â rheolwyr buddsoddi'r Brifysgol i ail-fuddsoddi'r cronfeydd hynny.

4. Dywedodd y Cadeirydd y byddai diweddariad ar yr Hen Goleg yn cael ei roi yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf.

**50. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR**

1. <u>Adroddiad yr Is-Ganghellor</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Athro Jon Timmis, Is-Ganghellor (COU2425-085).

NODWYD

1. Roedd tair prif ran i'r adroddiad: adroddiad yn amlygu'r prif bwyntiau; adroddiad ar ddenu myfyrwyr a chynllunio; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebu.

2. Croesawodd yr aelodau y ffordd y cyfathrebodd y Brifysgol â staff a myfyrwyr yn sgil dyfarniad y Goruchaf Lys bod y termau "menyw" a "rhyw" yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn cyfeirio at fenyw fiolegol a rhyw biolegol. Roedd yr aelodau hefyd yn cydnabod bod y pwnc yn un sensitif.

3. Croesawodd yr aelodau'r diweddariad am yr adolygiad o'r Gwasanaethau Proffesiynol.

4. Gofynnodd yr aelodau sut y bydd y Brifysgol yn ymdrin ag ymgynghoriad Medr. Cadarnhaodd swyddogion y bydd Medr yn cael eu gwahodd i'r sesiwn wybodaeth i'r Cyngor ym mis Gorffennaf [**GWEITHRED**: Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg].

5. Dywedodd yr Is-Ganghellor wrth yr aelodau bod prynwr wedi cysylltu'n ffurfiol â'r Brifysgol ynglŷn â phrynu safle Llanbadarn. Mae'r trefniadau llywodraethu yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd, a'r dyddiad cwblhau tebygol yw mis Mawrth 2026.

**PENDERFYNWYD**

6. Nodwyd yr adroddiad.

2. <u>Cynlluniau'r Brifysgol</u>

DERBYNIWYD

Naw cynllun y Brifysgol y cytunwyd arnynt gan y Weithrediaeth ac a lansiwyd dros y deuddydd diwethaf.

NODWYD

1. Croesawodd yr aelodau'r cynlluniau llinol a'r cyflwyniad diwylliannol i'r staff a’r gymuned ehangach.

2. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â pha Ddangosyddion Perfformiad Allweddol y byddai'r Cyngor am eu gweld. Nodwyd ei bod yn amserol cael trafodaeth yng ngoleuni’r sgyrsiau ynglŷn â’r gofrestr risg a'i aliniad â chynlluniau’r Brifysgol.

3. Nododd yr aelodau yr angen i wirio aliniad yn erbyn lefel y risg. Gweithgarwch o'r fath yw’r cam cyntaf wrth reoli risg, a dylai yrru’r gwaith archwilio mewnol. Nododd swyddogion y bydd cynlluniau gweithredu yn ategu'r cynlluniau cyffredinol, ac y bydd Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer y cyfadrannau a’r adrannau.

4. Cytunwyd ar ddull monitro mewnol chwarterol, i ddisodli'r rownd gynllunio flaenorol. Bydd dangosyddion perfformiad yn llywio'r gwaith o ddatblygu cynlluniau newydd, a bydd y cynlluniau’n cynnwys risgiau cysylltiedig, a fydd yn cael eu cyflwyno trwy ddangosfwrdd.

5. Trafododd yr aelodau'r angen i ddeall yn union beth yw ystyr rhai o'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol. Mae rhai yn syml iawn, tra bod eraill yn fwy cymhleth. Dywedodd swyddogion fod rhai yn fwriadol yn gynnil ac yn cyd-fynd â negeseuon, ymddygiadau neu ganfyddiadau Llywodraeth Cymru. Bydd y dulliau a ddefnyddir i fesur cynnydd yn allweddol.

PENDERFYNWYD

6. Bydd y tri phrif is-bwyllgor yn adolygu ac yn nodi pa gynlluniau a Dangosyddion Perfformiad Allweddol yr hoffent eu gweld, a pha rai i'w huwchgyfeirio i'r Cyngor.

7. Bydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn nodi sut y bydd y rhain yn mapio yn erbyn y gofrestr risg gan ei bod yn bwysig nad yw'r broses hon yn cynyddu maint y gofrestr risg i’r lefelau blaenorol.

## 51. ADRODDIAD GAN UNDEB ABERYSTWYTH

DERBYNIWYD

Adrodd gan Lywydd Undeb Aberystwyth, Will Parker ac Elain Gwynedd, Swyddog Diwylliant Cymru a Llywydd UMCA (COU2425-087)

NODWYD

1. Bu cynnydd o 10% yn ymwneud y myfyrwyr ag Undeb Aberystwyth. Adlewyrchir hyn yn yr ymateb sylweddol i’r etholiadau.

2. Bu cynnydd o 33% mewn gwirfoddoli. Gyda chefnogaeth prosesau newydd, anogwyd myfyrwyr i gofnodi oriau gwirfoddoli, a all eu gwneud yn fwy cyflogadwy.

3. Cynhaliwyd cyfarfod yng ngoleuni dyfarniad y Goruchaf Lys. Mae sgyrsiau'n mynd rhagddynt gyda swyddogion sabothol eraill ac UCM Cymru i drefnu protest. Mae yna awydd i wrthsefyll y dyfarniad heb dorri'r gyfraith.

UMCA

4. Diolchodd Llywydd UMCA i'r Cyngor am ei gefnogaeth ac am groesawu llais y myfyrwyr.

5. Codwyd mwy na £3,000 i'r Teenage Cancer Trust yn ystod yr wythnos Codi a Rhoddi.

6. Bu Llywydd UMCA mewn cyfarfod o Fwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol lle trafodwyd pwysigrwydd cadw modiwlau cyfrwng Cymraeg er gwaetha'r toriadau ar draws prifysgolion.

7. Mae UMCA yn cynorthwyo â'r paratoadau ar gyfer yr Eisteddfod Ryng-Golegol, a gynhelir eleni gan Brifysgol Caerdydd.

**PENDERFYNWYD**

8. Nodwyd yr adroddiad.

## 52. MATERION ARIANNOL

1. Diweddariad am y Cyfrifon Rheoli

   DERBYNIWYD

   Adroddiad gan Mr Simon Crick, y Prif Swyddog Ariannol (COU2425-088).

   NODWYD

   1. Disgwylir y bydd y rhagolwg ar gyfer mis wyth yn unol â chynllun y gyllideb, gyda'r ffigwr i'r flwyddyn hyd yn hyn yn dangos gwarged o £0.6m.

   2. Ategir yr hyder yn y rhagolwg gan y ffaith bod lefel gyflawn yr arbedion wedi'i chanfod. Bu cynnydd mewn arbedion yn sgil swyddi gwag, wedi'u gyrru gan reolaethau o amgylch recriwtio.

   3. Gofynnodd aelodau am sicrwydd bod swyddi gwag yn cael eu monitro i asesu'r effaith a'r gallu i gynnal darpariaeth gwasanaethau. Cadarnhaodd swyddogion nad yw pob swydd wag wedi'i hoedi, ond bod proses adolygu bragmataidd ar waith.

   4. Mae'r sefyllfa arian parod hefyd ar y blaen i'r gyllideb. Roedd yr arian parod a fenthycwyd o'r cronfeydd gwaddol wedi'u tynnu i lawr yn llawn erbyn mis Ionawr ond ni fu angen eu defnyddio. Mae'r Brifysgol yn gweithredu o arian parod a gynhyrchir a'r adnodd credyd cylchdroi.

   5. Gofynnodd yr aelodau am eglurhad ynghylch pam mai'r adnodd credyd cylchdroi oedd yn cael ei ddefnyddio, yn hytrach na'r arian parod o'r cronfeydd gwaddol. Esboniodd swyddogion mai mater o amseru yw hyn. Mae'r adnodd credyd

cylchdroi yn gweithredu dros gyfnod o 3 mis, felly rhaid ei dynnu i lawr ymlaen llaw i sicrhau y gellir cwrdd â’r anghenion arian parod.

6. Mae yna risg fach o ran amseriad gwariant yr Hen Goleg. Mae Rheolwr y Prosiect yn awyddus i wneud pob ymdrech i sicrhau dyddiad agor cynnar, a hoffai gynyddu'r gwariant misol i £1.5m. Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn gweithio i amserlen 3 mis, lle mae'r Brifysgol yn bilio am wariant ac yn cael ei thalu ym mis pedwar. Os nad yw'r taliad hwnnw'n dod i law, mae'n creu risg o ran llif arian parod.

**PENDERFYNWYD**

7. Nodwyd yr adroddiad.

2. <u>Diweddariad ar Ddenu a Chofrestru Myfyrwyr</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Helen Eustace, Pennaeth Cynllunio (COU2425-089).

NODWYD

1. Mae nifer y ceisiadau israddedig yn is o’i gymharu â’r un cyfnod y llynedd, mewn cyferbyniad â'r sector. Modelwyd dau sefyllfa, y cyntaf yn defnyddio tueddiadau o ran twf a throsi ceisiadau rhwng nawr a diwedd y cylch fel y gwelwyd y llynedd, a'r ail yn defnyddio tueddiadau cyfartalog dros 3 blynedd. Mae’r ddau yn arwain at well rhagamcan ar gyfer cofrestriadau ym mis Tachwedd 2025 o'i gymharu â'r mis diwethaf.

2. Mae'r ffocws bellach ar drosi. Mae'r ffigurau presennol 1% yn uwch na'r llynedd. Bu cynnydd yn nifer yr ymgeiswyr sy'n ein dewis ni fel eu dewis cadarn, ac mae ymdrechion sylweddol yn cael eu gwneud i’w cadw.

3. Gwelwyd gostyngiad bychan yn niferoedd y ceisiadau rhyngwladol. Er nad yw Aberystwyth yn cael ei heffeithio cymaint â phrifysgolion eraill, mae yna risg o hyd. Mae marchnad yr Unol Daleithiau, lle mae’r niferoedd hefyd wedi gostwng, yn peri mwy o bryder. Mae myfyrwyr o'r Unol Daleithiau yn dod i Aberystwyth oherwydd ei bod yn rhatach. Mae tua 50% o'n myfyrwyr o’r Unol Daleithiau yn defnyddio'r Cynllun Benthyciadau Ffederal. Mae llywodraeth yr Unol Daleithiau yn ystyried dileu'r Adran Addysg Ffederal, ac felly ei chynllun benthyciadau yn ogystal. Mae’n bosib y bydd cynlluniau o'r fath yn cael eu darparu ar lefel daleithiol mewn ardaloedd cyfoethocach. Mae timau marchnata a denu myfyrwyr yn monitro'r sefyllfa'n agos.

4. Mae yna wahaniaeth rhwng adrannau o ran y gostyngiad mewn ceisiadau, yn enwedig yr adran Cyfrifiadureg. Mae'r farchnad israddedig yn fywiog, ond nid yma. Nodwyd bod gwaith yn mynd rhagddo i wella ein harlwy, ond nad yw'r adnoddau gystal ag y gallent fod. Mae'r Brifysgol yn buddsoddi mewn labordai newydd dros yr haf, a fydd yn helpu, yn enwedig o safbwynt diwrnodau agored ac ymweld.

5. Gofynnodd yr aelodau ynglŷn ag effaith bosibl y Prif Swyddog Marchnata newydd. Mae'r swydd wedi'i hysbysebu ond, erbyn i'r broses recriwtio gael ei chwblhau,

bach fydd yr effaith ar y flwyddyn nesaf. Dylent gael mwy o effaith ar gylch 2027-28.

**PENDERFYNWYD**

6. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau.

3. Cyllideb 2025-26

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Mr Simon Crick, y Prif Swyddog Ariannol (COU2425-090).

NODWYD

1. Mae'r Weithrediaeth yn argymell ailosod y gyllideb y cytunwyd arno ar gyfer 2025-26 a 2026-27. Mae'r cais yn adlewyrchu'r posibilrwydd realistig y bydd gostyngiad yn niferoedd y myfyrwyr ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod o'i gymharu â'r gyllideb a gynlluniwyd.

2. I liniaru yn erbyn y diwygiad i'r gyllideb byddai angen lleihau costau ymhellach. Mae'r Weithrediaeth wedi trafod hyn, a theimlwyd y byddai gwneud hynny yn eithriadol o heriol. Mae yna dargedau arbedion i'w cyflawni o hyd, o dan yr adolygiad o'r gwasanaethau proffesiynol, felly mae lefel o risg eisoes ynghlwm wrth yr opsiwn ailosod.

3. Mae'r ffigur a awgrymwyd, sef £2.5m o ddiffyg, yn galluogi'r Brifysgol i weithredu yn unol â gofynion y cyfamodau bancio, gan gydnabod y bydd hyn yn gofyn am reoli gofalus. Byddai'r ailosod yn gweld y safle adennill costau yn cael ei ohirio am un flwyddyn, tan 2026-27.

4. Gan adlewyrchu'r drafodaeth yn y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad ac, o ystyried bod y Brifysgol wedi gweithredu cyllideb mewn diffyg am 9 mlynedd, gofynnodd yr aelodau am sicrwydd na fydd y sefydliad mewn sefyllfa debyg y flwyddyn nesaf. Gan nodi'r proffil risg cynyddol, bydd mwy o waith dadansoddi sensitifrwydd yn cael ei wneud rhwng nawr a mis Gorffennaf.

5. Gofynnodd yr aelodau a oedd unrhyw ffactorau anhysbys ar hyn o bryd a allai wneud hyn yn anodd. Mae'r prif risgiau yn ymwneud â denu myfyrwyr. Mae'r sefyllfa arian parod yn cynnig mwy o gyfleoedd nag incwm a gwariant. Os gallwn berfformio'n well na'r disgwyl eleni, bydd metrigau'r flwyddyn nesaf yn gwella.

6. Gofynnodd yr aelodau a oedd unrhyw ragdybiaethau wedi'u gwneud ar gyfer 2026-27 parthed agor yr Hen Goleg a'r incwm a fyddai'n deillio o hynny. Cadarnhaodd swyddogion fod y costau sefydlu wedi'u hystyried, ond nid yw'r ffrydiau refeniw yn ffactor a ystyriwyd wrth gynllunio'r gyllideb.

7. Nododd yr aelodau'r newid cadarnhaol sylweddol a wnaed eisoes a chytunwyd bod pethau'n symud i'r cyfeiriad iawn.

8. Nododd yr aelodau'r angen i ystyried y cais yn y cyd-destun ehangach. Gofynnwyd a yw'r gyllideb yn rhagdybio bod y £6m o arian parod o'r cronfeydd gwaddol a'r incwm cyflymedig o Bentre Jane Morgan wedi'u gwario.

Cadarnhaodd swyddogion nad yw'r naill na'r llall wedi cael eu hystyried: nid yw'r olaf wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor eto, a bydd yr arian parod o’r cronfeydd gwaddol yn parhau i aros yn y cyfrif cadw.

9. Gofynnodd aelodau am sicrwydd bod ffactorau mewnol wedi'u datrys, megis y materion penodol yn ymwneud â’r system RhPC. Cadarnhaodd swyddogion fod y materion technegol wedi'u datrys a bod adolygiad trylwyr o systemau a phrosesau yn mynd rhagddo. Mae camau lliniarol yn erbyn materion tebyg wedi'u rhoi ar waith.

**PENDERFYNWYD**

10. Gan nodi'r materion a godwyd gan y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad, cytunodd yr aelodau i gymeradwyo'r cyfeiriad cyffredinol, ac i gymeradwyo’r gyllideb yn derfynol ym mis Gorffennaf 2025.

4. <u>Perfformiad Cronfeydd Gwaddol a Chronfeydd Buddsoddi eraill</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Matthew Clarke, Rheolwr Trethi a Buddsoddiadau (COU2425-091).

NODWYD

1. Nododd yr aelodau fod y papur wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Buddsoddiadau. .

2. Mae buddsoddiadau yn tanberfformio, ond gwnaed cynnydd o ran symud y portffolio buddsoddi o dan y polisi buddsoddi newydd. Mae'r ffigurau hefyd yn adlewyrchu'r cronfeydd gwaddol a dynnwyd i lawr.

3. Mae yna risg o ran amseru yn ystod y cyfnod cythryblus hwn. Mae'r gronfa fuddsoddiadau wedi’i lleihau 9%, sy'n golygu bod gallu'r cronfeydd i gyflawni'r targedau incwm a thwf heriol hynny yn llai.

4. Nododd yr aelodau y dylai'r argymhelliad ynglŷn â’r Polisi Buddsoddi nodi ei fod yn cael ei adolygu bob dwy flynedd, yn hytrach na ddwywaith y flwyddyn.

**PENDERFYNWYD**

5. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau.

6. Cymeradwyodd yr aelodau'r cywiriad i eiriad y Polisi Buddsoddi

5. <u>Y Gofrestr Risg Gorfforaethol</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Mr Simon Crick, y Prif Swyddog Ariannol (COU2425-066).

NODWYD

1. Mae'r gofrestr risg wedi cael ei hadolygu gan y Weithrediaeth ac mae'r risgiau a'r graddfeydd yn debyg iawn i'r cyfnod blaenorol. Mae camau yn cael eu cymryd i'w lliniaru, er bod rhai yn gamau i'r hirdymor.

3. Nododd yr aelodau'r risg gynyddol fel sefydliad a gofynnwyd am sicrwydd ynghylch pa reolaethau sydd ar waith rhwng y cyfarfodydd. Risgiau strategol yw'r rhan fwyaf ohonynt felly dylai fod modd eu datrys drwy sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r strategaeth a'r cynlluniau newydd.

4. Nodwyd bod yna symudiad cyfyngedig rhwng effaith gros a net, er bod camau sylweddol wedi'u cofnodi.

5. Fel y nodwyd yn yr archwiliad mewnol diweddar, mewn rhai achosion mae bwlch sylweddol rhwng y risg gychwynnol a'r risg weddilliol. Nodwyd bod camau wedi'u cymryd o bosib, ond nad oedd y gofrestr wedi cael ei diweddaru, gan dynnu sylw at fater gweinyddol o gadw cofnodion cywir.

6. Nododd yr aelodau nad yw'r gofrestr yn adlewyrchu risgiau'n ymwneud â phobl a diwylliant. Cadarnhaodd swyddogion fod cofrestr risg gorfforaethol newydd ar waith ar gyfer rheoli newid i ymdrin â'r meysydd hyn.

**PENDERFYNWYD**

7. Nododd yr aelodau'r adroddiad, ac y bydd risg yn eitem o bwys yn y cyfarfod nesaf.

.

6. <u>Datganiadau Ariannol Undeb y Myfyrwyr</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Matthew Clarke, Rheolwr Trethi a Buddsoddiadau (COU2425-093).

NODWYD

1. Mae Undeb Aberystwyth yn paratoi eu cyfrifon eu hunain, sydd wedyn yn cael eu hadolygu gan archwilwyr annibynnol.

2. Mae'r cronfeydd wrth gefn wedi lleihau, ond maent yn dal yn ddigonol i ddarparu sicrwydd ynghylch sefyllfa ariannol yr undeb.

**PENDERFYNWYD**

3. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau

7. <u>FAA Chawton House</u>

DERBYNIWYD

Diweddariad llafar gan Simon Crick, y Prif Swyddog Cyllid

NODWYD

1. Daeth y cynnig ger bron y Cyngor yn wreiddiol ym mis Mawrth 2025.

2. Byddai'r risg dim ond yn berthnasol pe bai'r Brifysgol yn penderfynu gadael y Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS) yn y dyfodol.

3. Gofynnodd yr aelodau am eglurhad ynghylch eu cyfrifoldeb fel ymddiriedolwyr. Nodwyd bod y cynnig yn gwella amcanion y ddwy elusen, a chadarnhawyd hyn hefyd gan gyngor cyfreithiol.

4. Dywedodd yr aelodau eu bod yn cefnogi’r cynnig, o ystyried y risg ac o gydnabod yr amser a'r adnoddau a wariwyd hyd yma, ond nodwyd eu hanfodlonrwydd ynghylch y sefyllfa bresennol.

**PENDERFYNWYD**

5. Yn dilyn pleidlais, cytunodd yr aelodau i gymeradwyo'r argymhelliad, gyda dau yn ymatal.

**53. YR HEN GOLEG**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Athro Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor; Jim O'Rourke, Rheolwr Prosiect yr Hen Goleg a Jen Wolowic, Prif Arweinydd y Ganolfan Ddeialog (COU2425-094)

NODWYD

1. Gwahoddwyd pob un o’r cyllidwyr allweddol i gyfarfod ar y safle ar 21 Mai gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol i ystyried pecyn ariannu ar y cyd fel grŵp. Bydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar y potensial i sicrhau cyllid pellach, gan gynnwys osgoi rhoi hepgoriadau ar waith. Bydd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol angen eglurder ynghylch costau terfynol y prosiect a'r dyddiad agor cyn ystyried unrhyw gais am gyllid ychwanegol.

2. Bydd adroddiad ar gynnydd pecynnau is-gontractwyr sydd heb eu cwblhau hefyd yn cael ei drafod yng nghyfarfod y cyllidwyr. Bydd yr adroddiad hwn yn gam sylweddol tuag at ddiffinio dyddiad gorffen y prosiect a bydd yn helpu i sicrhau hyder cyllidwyr er gwaethaf y potensial am orwariant o ystyried y sefyllfa wrth gefn.

3. Mae trafodaethau wedi dechrau gyda gweithredwr gwesty posibl, a gobeithir y gellir rhoi diweddariad i'r Cyngor ym mis Gorffennaf.

4. Gofynnodd yr aelodau am sesiwn wybodaeth gan Jen Wolowic ar ei gwaith gyda'r Hen Goleg. **[GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg]

**PENDERFYNWYD**

5. Nododd yr aelodau yr adroddiad, ac y byddai trafodaethau pellach yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf.

**54. MATERION LLYWODRAETHU**

1. <u>Dyddiadau cyfarfodydd 2025-26</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg, Helen Davies, Swyddog Llywodraethu; a Rebecca Sweeney, Rheolwr Llywodraethu (COU2425-072).

NODWYD

1. Er mwyn hwyluso trefniadau'r aelodau, mae dyddiadau dros dro'r cyfarfodydd ar gyfer sesiwn 2025-26 yn cael eu cyflwyno'n gynharach nag arfer. Ymdrechwyd i sicrhau cysondeb o ran y diwrnodau y cynhelir pwyllgorau penodol. Trafodwyd cyfarfodydd y Cyngor ac, er bod dydd Gwener yn gallu bod yn ddiwrnod anodd, mae dydd Llun a dydd Gwener yn haws yn gyffredinol, gan eu bod yn caniatáu ar gyfer amser teithio'r aelodau. Bydd y sesiwn wybodaeth ym mis Ionawr yn cael ei chynnal eto, ar-lein.

2. Codwyd cwestiwn ynglŷn â sesiynau gwybodaeth a'r awydd am sesiynau hirach. Bydd un yn cael ei chynnal ym mis Hydref, ar brynhawn dydd Llun.

3. Awgrymwyd y gallai fod papur i'w nodi a'i drafod yn y cyfarfodydd hyn hefyd. Trafododd aelodau p'un a ddylai un o'r eitemau fod yn fwy strategol, yn hytrach na mater ariannol.

**PENDERFYNWYD**

4. Cymeradwywyd y dyddiadau, a gofynnwyd i'r aelodau roi gwybod am unrhyw wrthdaro cyn gynted â phosibl.

**55. ADRODDIADAU GAN YR IS-BWYLLGORAU**

**NODWYD**

Nododd cadeiryddion yr is-bwyllgorau fod y prif faterion wedi cael eu trafod a'u hystyried yn ystod y cyfarfod.

**56. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A MATERION YN Y DYFODOL**

1. Mae cyfle wedi'i nodi mewn perthynas ag un o gytundebau ariannu Pentre Jane Morgan a fydd yn dod i ben ym mis Mehefin 2028. Talwyd y brif ddyled yn llwyr yn ystod y flwyddyn hon. Mae cronfa dros ben o £4m wedi'i nodi - 50% y Brifysgol a 50% Pobl - sy'n debygol o gynyddu rhwng nawr a diwedd y cytundeb. Cafwyd trafodaethau gyda Pobl ynglŷn â ddefnyddio'r gwarged, a daethpwyd i ddealltwriaeth y byddai £1m y flwyddyn yn cael ei alldynnu ym mis Medi am y tair blynedd nesaf.

2. Mae Pobl wedi cynnig llythyr ategol fel y cytundeb cyfreithiol priodol. Er y cafwyd sgyrsiau gyda chynghorwyr cyfreithiol, ni fu amser hyd yma i roi popeth yn ysgrifenedig.

3. Gofynnodd aelodau pam na fyddai'r Brifysgol yn cymryd y £3m mewn un cyfandaliad. Cadarnhaodd swyddogion fod y cytundeb yn cynnwys rhywfaint o risg weddilliol o ran denu'r niferoedd gofynnol o fyfyrwyr ac y byddai felly'n gyndyn i alldynnu ar gyfradd uwch.

4. Nododd aelodau y byddai'n ddymunol cynnwys y gallu i gyflymu'r alldyniadau yn y llythyr ategol.

**PENDERFYNWYD**

5. Dirprwyo awdurdod i gymeradwyo cytundeb o'r fath i’r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad, ar ôl cael cyngor cyfreithiol priodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 16:05.

Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd 7 Gorffennaf 2025.